# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Ymgynghoriad ar y Fanyleb Brentisiaethau Cymru arfaethedig o dan adran 115 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 |
| **Swyddog(ion) sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Matthew Allman**<br>**Melanie Thomas**<br>**Evie Barnes**<br>**Y Tîm Prentisiaethau** |
| **Adran:** | **Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau ac Addysg Drydyddol, Y Grŵp Dysgu, Cymunedau a Diwylliant** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Neil Surman** |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Cefin Campbell AS** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **28 Mai 2026** |

# CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? .......... 4

Adran 8. Casgliad .......... 7

**ASESIADAU EFFAITH LLAWN** .......... 10

**A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT** .......... 10

B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb .......... 16

C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG .......... 24

# ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Fanyleb Brentisiaethau Cymru arfaethedig o dan adran 115 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy. Mae adran 115 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â chynnwys fframweithiau prentisiaethau, safonau cyrhaeddiad, gofynion cymwysterau a hyfforddiant, a pharatoi, diwygio, tynnu'n ôl a chyhoeddi fframweithiau prentisiaethau.

Mae'r cynnig yn rhan o'r pontio o Bennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW) o dan adran 28 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 i'r fframwaith a sefydlwyd o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Y bwriad polisi yn fras yw cadw effaith Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru oni bai bod rhesymeg glir dros newid. Felly, mae Manyleb Brentisiaethau Cymru yn gyfuniad o barhad, symleiddio a diwygio wedi'i dargedu, yn hytrach na system brentisiaethau hollol newydd.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Fanyleb Brentisiaethau Cymru arfaethedig a dogfennau ategol. Mae'r cynigion yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â:

- chynnwys fframweithiau prentisiaethau
- cymhwysedd galwedigaethol
- safonau cyrhaeddiad a threfniadau asesu
- y defnydd o safonau galwedigaethol pan nad oes cymwysterau ar gael neu pan fo angen eu datblygu
- gofynion Sgiliau Hanfodol
- cymwysterau procsi cydnabyddedig ar gyfer Sgiliau Hanfodol
- cyfleoedd i gynyddu mynediad i brentisiaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Canllawiau drafft a Rhestr ddrafft o Gymwysterau Procsi Cydnabyddedig ar gyfer Sgiliau Hanfodol (Cymru) hefyd wedi'u datblygu i gefnogi'r gwaith gweithredu.

Bydd cymwysterau yn parhau i chwarae rôl bwysig o fewn fframweithiau prentisiaethau lle bynnag y maent ar gael ac yn briodol. Fodd bynnag, mae Manyleb Brentisiaethau Cymru yn cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellir datblygu fframweithiau prentisiaethau, wrth gynnal hyder mewn cymhwysedd galwedigaethol ac ansawdd. Mae hyn yn cynnwys darparu hyblygrwydd pan nad oes cymwysterau ar gael neu pan fo angen eu datblygu.

**Y tymor hir ac atal**

Mae'r cynigion yn ymateb i heriau hirdymor sy'n effeithio ar y system brentisiaethau a sgiliau ehangach yng Nghymru, gan gynnwys anghenion newidiol y farchnad lafur, gofynion galwedigaethol sy'n esblygu, galw cynyddol am sgiliau lefel uwch a thechnegol, digideiddio, a phontio i economi wyrddach a mwy cynhyrchiol.

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod prentisiaethau yn parhau i ymateb i anghenion cyflogwyr, newid economaidd a gofynion y gweithlu yn y dyfodol. Bwriad Manyleb Brentisiaethau Cymru yw cryfhau gwydnwch a chynaliadwyedd y system brentisiaethau trwy leihau rhwystrau a allai gyfyngu ar allu fframweithiau i ymateb i anghenion galwedigaethol, economaidd a gweithlu sy'n newid. Trwy ddarparu mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellir datblygu fframweithiau prentisiaethau, mae'r cynigion yn ceisio atal cyfyngiadau yn y dyfodol a allai gyfyngu ar ymatebolrwydd i anghenion sgiliau, cynnydd dysgwyr a galw cyflogwyr. Mae'r dull ataliol hwn yn ceisio mynd i'r afael â phwysau sylfaenol ar y system cyn i'r ffactorau hynny effeithio ar ansawdd, argaeledd neu berthnasedd darpariaeth prentisiaethau.

Mae tystiolaeth gan Cymwysterau Cymru hefyd wedi nodi risgiau sy'n deillio o ddiwygiadau i gymwysterau galwedigaethol ôl-16 yn Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o dynnu cymwysterau a ddefnyddir ar hyn o bryd o fewn fframweithiau prentisiaethau Cymru yn ôl a datblygu cymwysterau newydd nad ydynt o bosibl yn bodloni gofynion cymhwysedd galwedigaethol prentisiaethau Cymru. Mae'r datblygiadau hyn wedi llywio cynigion sydd â'r bwriad o sicrhau y gall fframweithiau prentisiaethau Cymru barhau i gefnogi cymhwysedd galwedigaethol pan nad oes cymwysterau ar gael neu pan nad ydynt bellach yn cyd-fynd â gofynion prentisiaethau Cymru.

**Integreiddio**

Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg drydyddol a sgiliau ymatebol, integredig ac o ansawdd uchel. Mae'n ategu'r gwaith diwygio sy'n cael ei wneud drwy Medr a'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac yn cefnogi amcanion ehangach a nodir yn y Datganiad Polisi Prentisiaethau, *Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau*, *Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net* a'r *Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru*.

Mae'r cynigion yn cyfrannu at y nodau llesiant drwy gefnogi ffyniant economaidd, gwydnwch y gweithlu, cyfle cyfartal, cymunedau cydlynol a'r Gymraeg.

Mae'r Fanyleb Brentisiaethau Cymru ddrafft yn cynnwys gofyniad bod Medr – wrth ddatblygu, cymeradwyo, adolygu neu ddiwygio fframweithiau prentisiaethau – yn rhoi sylw i gyfleoedd i gynyddu mynediad at ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys amcanion Cymraeg 2050.

**Cydweithio a chynnwys**

Mae'r cynigion wedi'u datblygu drwy gydweithio â nifer o bartneriaid allweddol, gan gynnwys Medr, Cymwysterau Cymru a chydweithwyr polisi a chyflawni Llywodraeth Cymru. Mae'r ymgysylltu hwn wedi llywio dyluniad Manyleb Brentisiaethau Cymru a dogfennau ategol.

Mae'r ymgynghoriad presennol yn rhoi cyfle i ddysgwyr, cyflogwyr, darparwyr, cyrff dyfarnu, sefydliadau cynrychiadol a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at ddatblygu'r cynigion terfynol. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau dilynol yn llywio datblygiad y cynigion terfynol a'r canllawiau ategol.

### Effaith

Gan mai ymgynghoriad yw hwn, ceisir rhagor o dystiolaeth ar fanteision, risgiau ac effeithiau posibl gweithredu'r cynigion. Mae'r meysydd sy'n cael eu harchwilio yn cynnwys cymhwysiad ymarferol y darpariaethau hyblygrwydd arfaethedig, effeithiau ar ddatblygu a chyflawni fframweithiau, argaeledd ac addasrwydd cymwysterau, cynigion sy'n ymwneud â chymhwysedd galwedigaethol a Sgiliau Hanfodol, ac unrhyw oblygiadau sector-benodol.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau dilynol yn helpu i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol, heriau gweithredu ac effeithiau sector-benodol, a byddant yn llywio penderfyniadau polisi terfynol.

### Costau ac arbedion

Disgwylir cyflawni hyn yn bennaf drwy adnoddau presennol Llywodraeth Cymru, Medr a phartneriaid. Mae goblygiadau adnoddau tymor byr yn ymwneud yn bennaf â datblygu polisi, cyhoeddi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a gweithgarwch cynllunio cysylltiedig. Ni ddisgwylir i'r cynigion greu costau ychwanegol sylweddol i Lywodraeth Cymru y tu hwnt i adnoddau staff a rhaglen presennol.

Byddai unrhyw gostau system yn y dyfodol sy'n deillio o ddatblygu fframweithiau, diwygio cymwysterau neu newidiadau system ehangach yn cael eu hystyried ar wahân trwy drefniadau llywodraethu a chyllido presennol. Yn y tymor hwy, gall symleiddio gofynion a mwy o hyblygrwydd leihau'r baich gweinyddol, cefnogi rheolaeth fwy effeithlon o fframweithiau prentisiaethau, a gwella gallu'r system i ymateb i anghenion gweithlu, galwedigaethol ac economaidd sy'n newid.

### Mecanwaith

Bydd y cynnig yn cael ei weithredu drwy gyhoeddi Manyleb Brentisiaethau Cymru o dan adran 115 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gyda chefnogaeth canllawiau a'r Rhestr o Gymwysterau Procsi Cydnabyddedig ar gyfer Sgiliau Hanfodol (Cymru). Bydd canfyddiadau'r Asesiad Effaith Integredig hwn, ynghyd ag ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau pellach, yn llywio fersiwn derfynol Manyleb Brentisiaethau Cymru a'r canllawiau ategol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi cael eu hystyried drwy brosesau ymgynghori cynhwysol a oedd yn gofyn am fewnbwn gan ystod amrywiol o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys darparwyr hyfforddiant, sefydliadau cynrychiadol a grwpiau sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, gan helpu i nodi effeithiau posibl ar fynediad, cyfranogiad a chanlyniadau yn gynnar.

Ymgysylltwyd â siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol y Gymraeg drwy weithgarwch ymgynghori a thrafodaethau polisi parhaus sy'n ystyried yn benodol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac argaeledd prentisiaethau a chymwysterau yn Gymraeg. Mae hyn yn cefnogi amcanion Cymraeg 2050 ac yn sicrhau bod anghenion dysgwyr a chyflogwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu hadlewyrchu.

Mae ystod eang o randdeiliaid eraill hefyd wedi cymryd rhan, gan gynnwys cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, cyrff dyfarnu a chynrychiolwyr y sector. Mae'r cynnig yn tynnu ar dystiolaeth o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2024 ar Fanyleb Safonau Prentisiaethau Cymru, ymgynghoriad Medr ar y rhaglen brentisiaethau yn y dyfodol, gwaith ymgysylltu Cymwysterau Cymru ar gymwysterau galwedigaethol ôl-16, a thrafodaethau traws-bolisi ar ddiwygiadau yn Lloegr.

Bydd yr ymgynghoriad adran 115 sydd ar ddod yn rhoi cyfle pellach i bob grŵp lunio'r dyluniad terfynol a sicrhau dull cynhwysol a chydgysylltiedig o gyflawni.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Yr effaith gadarnhaol gryfaf yw'r cyfle i greu fframwaith statudol mwy gwydn ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru sy'n cyfuno hyblygrwydd â mesurau diogelu statudol clir. Mae Manyleb Brentisiaethau Cymru yn cadw cymhwysedd galwedigaethol fel canlyniad canolog ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy, wrth ganiatáu dulliau amgen pan nad oes cymwysterau ar gael neu pan maent yn cael eu datblygu. Mae Manyleb Brentisiaethau Cymru a'r canllawiau ategol hefyd yn sefydlu fframwaith cenedlaethol cliriach ar gyfer datblygu, cymeradwyo ac adolygu prentisiaethau, gan helpu i gynnal cysondeb a hyder ar draws y system, wrth wella ymatebolrwydd i anghenion galwedigaethol a'r farchnad lafur newidiol.

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol yn systemig ac yn ymwneud â phontio. Er bod Manyleb Brentisiaethau Cymru a'r canllawiau ategol yn darparu fframwaith statudol a pholisi clir, mae potensial o hyd ar gyfer ansicrwydd yn ystod y cyfnod pontio, yn enwedig pan nad yw cymwysterau a ddefnyddir ar hyn o bryd o fewn fframweithiau prentisiaethau Cymru ar

gael mwyach neu pan fo angen eu disodli. Mae diwygiadau ehangach yn Lloegr yn ychwanegu at y risgiau hyn oherwydd gall llawer o gymwysterau prentisiaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru ddod yn fasnachol fregus neu efallai na fyddant ar gael mwyach.

Mae hwn yn bwynt arbennig o bwysig: nid yw diwygiadau yn Lloegr yn niwtral o ran eu heffaith ar brentisiaethau yng Nghymru. Mae dadansoddiad gan Cymwysterau Cymru yn cadarnhau bod y llwybrau newydd Lefel V, Lefel T a Lefel 2 yn Lloegr wedi'u cynllunio ar sail cymhwysedd trothwy neu fynediad, ac nad ydynt yn darparu cymhwysedd galwedigaethol. Felly ni allant weithredu fel amnewidiadau uniongyrchol a chyfatebol o fewn model prentisiaethau presennol Cymru. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am fanyleb Gymreig sy'n parhau i fod yn glir ynglŷn â chymhwysedd galwedigaethol, safonau cyrhaeddiad a gofynion asesu, wrth ddarparu digon o hyblygrwydd i ymateb lle nad oes cymwysterau ar gael. Mae'r defnydd o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol – neu, lle nad yw'r rhain yn bodoli, safonau galwedigaethol neu broffesiynol cydnabyddedig – hefyd yn helpu i gynnal hyder bod fframweithiau prentisiaethau yn parhau i fod wedi'u gwreiddio mewn cymhwysedd galwedigaethol.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

- Mae'r cynnig yn cefnogi'r nodau llesiant trwy gynnal system brentisiaeth gref ac ymatebol sy'n parhau i ddatblygu cymhwysedd galwedigaethol, wrth ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran gofynion cymwysterau lle bo hynny'n briodol. Dylai hyn helpu i wella hygyrchedd, helpu pobl i gymryd rhan, a sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau yn parhau i gyd-fynd ag anghenion cyflogwyr a dysgwyr.
- Bydd effeithiau negyddol posibl yn cael eu lliniaru trwy ymgynghori ar ddrafft o Fanyleb Brentisiaethau Cymru a'r canllawiau ategol a dogfennau cysylltiedig, gan alluogi rhanddeiliaid i ddarparu tystiolaeth ar oblygiadau ymarferol y cynigion cyn iddynt gael eu cwblhau. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, yn cael eu defnyddio i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol, profi effeithiau sector-benodol, llywio penderfyniadau polisi terfynol, a mireinio Manyleb Brentisiaethau Cymru a'r canllawiau a'r dogfennau ategol cyn eu cyhoeddi. Bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog hefyd yn parhau i gael eu hystyried drwy gydol yr ymgynghoriad a'r broses gwblhau i gefnogi'r nod o sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd y gwaith o gasglu tystiolaeth a gwerthuso yn dechrau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd i ddarparu tystiolaeth ar ddrafft o Fanyleb Brentisiaethau Cymru, canllawiau ategol, y Rhestr Brocsi a chynigion cysylltiedig, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar ddysgwyr, cyflogwyr, darparwyr, datblygu fframweithiau, cymhwysedd galwedigaethol, Sgiliau Hanfodol, cymwysterau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau dilynol yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i lywio'r safbwynt polisi terfynol ac unrhyw ddiwygiadau i'r dogfennau ymgynghori cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Yn dilyn y cam cyflwyno, gall Llywodraeth Cymru a Medr ddefnyddio ystadegau prentisiaethau, gwybodaeth rheoli, gwybodaeth am y farchnad cymwysterau ac adborth sector presennol i ddeall sut mae'r diwygiadau'n gweithredu yn ymarferol. Gall hyn gynnwys ystyried cyfranogiad, gallu fframweithiau i weithredu, argaeledd cymwysterau, canlyniadau cymhwysedd galwedigaethol a gwydnwch y system yn ehangach. Bydd monitro yn helpu i nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn llywio adolygiadau yn y dyfodol o'r fanyleb, y canllawiau a'r trefniadau cysylltiedig.

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Amcanion polisi

- Y penderfyniad sy'n cael ei asesu yw cyflwyno gofynion newydd o dan adran 115 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 mewn perthynas â phrentisiaethau cymeradwy yng Nghymru. Yr amcan yw disodli'r Fanyleb Safonau Prentisiaethau i Gymru (y Fanyleb) bresennol gyda fframwaith statudol mwy hyblyg a gwydn.
- Ymysg yr effeithiau cadarnhaol disgwyliedig mae mwy o wydnwch a chynaliadwyedd llwybrau prentisiaethau ac aliniad cryfach â galw'r farchnad lafur. Gallai effeithiau negyddol posibl ddeillio o ansicrwydd dros dro sy'n gysylltiedig â diwygiadau i'r fframwaith. Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, canllawiau clir a pharhau i fonitro effeithiau ar ddysgwyr.
- Mae'r polisi yn effeithio'n uniongyrchol ar ddysgwyr 16–18 oed, ac mewn rhai amgylchiadau pobl ifanc hyd at 25 oed, sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau. O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), diffinnir plant fel unigolion o dan 18 oed. Yng Nghymru, mae'n ofynnol rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth ystyried buddiannau pobl ifanc hyd at 25 oed.
- Mae'r polisi hefyd yn cefnogi'r fframwaith deddfwriaethol ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys yr egwyddorion a'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n hyrwyddo lles, cyfranogiad a chymorth i unigolion gyflawni eu canlyniadau personol. Yn ogystal, mae'r cynnig yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n ceisio gwella canlyniadau a sicrhau cefnogaeth briodol i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol hyd at 25 oed.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Mae'r dystiolaeth yn tynnu ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fanyleb yn 2024 ac ymgysylltiad â darparwyr, cyflogwyr, cyrff dyfarnu a sefydliadau cynrychioladol. Er na chynhaliwyd ymgynghoriad uniongyrchol â phlant na phobl ifanc, ac na adroddwyd ynghylch ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahân yn ôl grŵp oedran, roedd yr adborth yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais yn sgil y newidiadau, yn enwedig mewn perthynas â hygyrchedd, addasiadau rhesymol, canllawiau clir a chyfleoedd dilyniant i brentisiaid, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r adborth hwn wedi cyfrannu at ddull polisi trwy atgyfnerthu'r angen am system brentisiaeth hyblyg ac ymatebol, gyda chefnogaeth canllawiau gweithredu clir, ymgysylltu â rhanddeiliaid a pharhau i fonitro effeithiau ar ddysgwyr.

- Gellid cynnal ymgysylltiad pellach yn uniongyrchol drwy gyrff cynrychioliadol (e.e. sefydliadau ieuenctid, darparwyr, Cymru Ifanc) yn ystod y cyfnod ymgynghori neu weithredu. Mae hyn yn adlewyrchu'r bwriad i gryfhau'r aliniad ag Erthygl 12 (yr hawl i gael eich clywed) yn y dyfodol.

### Effaith ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc

Gallai'r cynnig effeithio ar grwpiau mewn ffordd wahanol:

- **Dysgwyr 16–18 / ymunwyr cynnar**: y rhai mwyaf dibynnol ar lwybrau dilyniant clir; unrhyw gymhlethdod neu ansefydlogrwydd yn effeithio'n fwy arnynt o bosib
- **Pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** o bosib yn elwa o ddulliau hyblyg ond angen trefniadau cymorth clir a chyson
- **Pobl ifanc o aelwydydd incwm isel**: yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan lai o fynediad, rhwystrau teithio neu lwybrau aneglur
- **Pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg**: yn cael eu heffeithio o bosib os bydd llai o gymwysterau neu ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal neu sy'n agored i niwed**: yn cael eu heffeithio'n anghymesur o bosib gan gymhlethdod y system neu darfu wrth bontio

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

### Effeithiau gyffredinol ar blant a phobl ifanc

Disgwylir i'r polisi gael **effaith gadarnhaol gymedrol yn gyffredinol**, gyda rhai **risgiau tymor byr wrth bontio**. Mae'r polisi presennol wedi'i gynllunio i gefnogi cyfranogiad mewn prentisiaethau ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, gellid cryfhau'r effaith gadarnhaol trwy ymgorffori llais dysgwyr mewn adolygiadau fframwaith yn y dyfodol ac ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb a chynhwysiant mewn canllawiau gweithredu. Byddai'r mesurau hyn yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar blentyn ymhellach.

### Effeithiau cadarnhaol

- Gall mwy o hyblygrwydd **helpu i sicrhau bod llwybrau prentisiaethau yn parhau i fod ar gael**, gan ddiogelu mynediad i bobl ifanc

- Gall gwell aliniad â'r galw yn y farchnad lafur helpu i wella cyfleoedd i **symud ymlaen i gyflogaeth (Erthygl 6)**
- Gall symleiddio'r gofynion wella **eglurder llwybrau**, yn enwedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid
- Gall hyblygrwydd wrth ddarparu helpu i sicrhau **mynediad cynhwysol**, yn enwedig i ddysgwyr sydd ag ADY (Erthygl 23)

**Risgiau negyddol**

- Gall trosglwyddo i fframwaith newydd greu **ansicrwydd neu darfu dros dro**
- Gallai mwy o hyblygrwydd arwain at **anghysondeb neu lai o eglurder** os nad yw'n cael ei ddiffinio'n dda
- Gallai newidiadau o ran y cymwysterau sydd ar gael gyfyngu ar fynediad mewn rhai sectorau
- Gall cymhlethdod effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd â llai o gefnogaeth neu lai o brofiad o ddefnyddio'r system

**Mesurau lliniaru**

- Diffiniadau statudol clir a chanllawiau i gynnal cysondeb
- Diogelu cymhwysedd galwedigaethol fel gofyniad craidd
- Trefniadau pontio i ddiogelu dysgwyr presennol
- Cadw addasiadau rhesymol a chefnogaeth benodol i ddysgwyr ADY
- Disgwyliadau clir ynghylch asesu anghenion dysgwyr, gan gynnwys Sgiliau Hanfodol
- Monitro parhaus o'r cymwysterau sydd ar gael ac effeithiau ar y sector

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol?

| Erthygl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | Gwelliannau | Heriau | Esboniad |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 2 (dim gwahaniaethu) | X | | Gall fframweithiau hyblyg ehangu mynediad os ydynt yn cael eu gweithredu'n deg. Dylid monitro eu gweithrediad i sicrhau nad oes unrhyw grŵp o blant neu bobl ifanc dan anfantais. |
| Erthygl 3 (budd pennaf y plentyn) | X | | Mae'r cynnig yn ceisio cefnogi canlyniadau addysgol a chyflogaeth pobl ifanc, gan ystyried eu buddiannau pennaf |
| Erthygl 6 (Datblygu) | X | | Mae prentisiaethau yn cefnogi datblygiad plant trwy fynediad at sgiliau, dysgu a chyfleoedd dilyniant |
| Erthygl 12 (yr hawl i gael gwrandawiad) | | X | Ymgysylltiad uniongyrchol cyfyngedig â phobl ifanc hyd yn hyn; i'w gryfhau drwy ymgynghori |
| Erthygl 23 (anabledd) | X | | Mae'r cynnig yn darparu cymorth priodol ar gyfer mynediad at addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc ag anableddau lle bo angen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 28 (Addysg) | X | | Cefnogi mynediad parhaus at lwybrau addysg a hyfforddiant ôl-16 |
| Erthygl 29 (nodau addysg) | X | | Cefnogi datblygu sgiliau sy'n berthnasol i waith a chymdeithas |

Mae'r asesiad hefyd wedi ystyried Erthygl 13 (mynediad at wybodaeth) ac Erthyglau 32 a 36 (amddiffyn rhag camfanteisio a niwed). Mae'r cynnig yn cefnogi mynediad at wybodaeth a chyfleoedd prentisiaethau, tra bod trefniadau sicrhau ansawdd, diogelu a goruchwylio presennol yn helpu i amddiffyn dysgwyr rhag darpariaeth neu brofiadau o ansawdd gwael a allai effeithio'n andwyol ar eu lles, eu datblygiad neu eu haddysg.

Yn ogystal, mae'r asesiad wedi ystyried Sylwadau Terfynol a Sylwadau Cyffredinol perthnasol CCUHP, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addysg, cyfranogiad, budd pennaf y plentyn a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n pontio i gyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r ystyriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu trwy gydol yr asesiad ac wedi cyfrannu at y casgliad cyffredinol bod disgwyl i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at brentisiaethau.

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

  Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu yn unol â'r egwyddor o driniaeth gyfartal ac nid yw'n cyflwyno unrhyw ddarpariaethau a fyddai'n cyflwyno anfantais i Hawliau Dinasyddion yr UE o dan 18 oed. Bydd monitro parhaus yn ystod y cam gweithredu yn sicrhau bod unrhyw effeithiau gwahaniaethol anfwriadol yn cael eu nodi a'u datrys.

**4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog**

Mae'r asesiad hwn yn dangos bod y cynnig yn gyson yn fras â rhwymedigaethau hawliau plant, ar yr amod ei fod yn cael ei weithredu gan gynnal:

- eglurder a chysondeb llwybrau
- mynediad cyfartal i bob grŵp
- cefnogaeth benodol i ddysgwyr sy'n agored i niwed

Dylai cyngor gweinidogol felly wneud y canlynol:

- cydnabod yr effaith gadarnhaol gymedrol ar bobl ifanc
- pwysleisio pwysigrwydd mesurau lliniaru
- cefnogi ymgysylltu parhaus â phlant a phobl ifanc drwy'r cyfnodau ymgynghori a gweithredu

- **Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**
  - *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*
  - *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i'w cyhoeddi.*

- **Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Os yw pobl ifanc yn ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad:

- Dylid cynnig adborth trwy grynodebau hygyrch
- Dylid ystyried cynhyrchu fersiynau **addas i blant** o ganlyniadau'r ymgynghoriad.
- Gallai sefydliadau a darparwyr cynrychioliadol gefnogi'r gwaith ymgysylltu

- **Monitro ac Adolygu**

Bydd yr effaith ar blant a phobl ifanc yn cael ei monitro drwy'r canlynol:

- Data cyfranogiad a chwblhau prentisiaethau yn ôl grŵp oedran
- Deilliannau dilyniant i gyflogaeth neu ddysgu pellach
- Monitro mynediad ar draws gwahanol grwpiau (e.e. ADY, cefndir economaidd-gymdeithasol)
- Adborth gan ddarparwyr a chynrychiolwyr dysgwyr
- Dadansoddiad parhaus o argaeledd cymwysterau a hyfywedd fframwaith

Dylid cynnal adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar ôl gweithredu i asesu:

- a yw'r effeithiau disgwyliedig wedi digwydd
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi codi
- p'un a oes angen lliniaru pellach neu addasu polisi

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r dull o'i roi ar waith?

Nid oes unrhyw un wedi'i nodi ar hyn o bryd. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith datblygu polisi dilynol yn cael eu hystyried cyn cwblhau'r Fanyleb, canllawiau ategol a dogfennau cysylltiedig. Bydd unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol ar ôl gweithredu yn cael eu hystyried trwy drefniadau adolygu polisi arferol.

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

### Hyrwyddo cydraddoldeb

Bwriad y cynnig i gyflwyno gofynion newydd ar gyfer prentisiaethau sydd wedi'u cymeradwyo yng Nghymru o dan adran 115 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yw cefnogi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn benodol, y nod o hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r cynnig yn ceisio creu fframwaith mwy hyblyg a gwydn ar gyfer prentisiaethau, gan alluogi'r system i ymateb yn fwy effeithiol i newidiadau mewn cymwysterau, gofynion galwedigaethol a galw yn y farchnad lafur.

Mae llwybrau prentisiaeth hygyrch a chynaliadwy yn arbennig o bwysig i rai pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a allai wynebu rhwystrau rhag mathau eraill o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae adborth rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith yn parhau i fod ar gael, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion dysgwyr.

Gall yr hyblygrwydd a ddarperir gan y gofynion newydd helpu i gefnogi cyfranogiad lle mae angen i brentisiaethau ddarparu ar gyfer anghenion gwahanol ddysgwyr, gan gynnwys trwy addasiadau rhesymol, dulliau cyflawni hygyrch ac ystyried amgylchiadau unigol.

Bydd ymgynghoriad ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid yn cael eu defnyddio i gasglu rhagor o dystiolaeth ar effeithiau posibl y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn helpu i lywio'r dull polisi terfynol a nodi a oes angen unrhyw fesurau lliniaru neu gymorth ychwanegol i hyrwyddo cyfle cyfartal ac osgoi rhwystrau anfwriadol rhag cyfranogiad.

**Effeithiau negyddol posibl a mesurau lliniaru**

Mae effeithiau negyddol posibl yn gysylltiedig yn bennaf â phontio a gweithredu:

**Effeithiau negyddol posibl** Gallai mwy o hyblygrwydd arwain at anghysondeb neu lai o eglurder os nad yw'r gofynion wedi'u diffinio'n eglur.
**Lliniaru:** Bydd gofynion statudol clir a chanllawiau ategol yn cael eu darparu i sicrhau cysondeb wrth ddehongli a gweithredu.

**Effeithiau negyddol posibl** Gall tarfu dros dro sy'n deillio o newidiadau i gymwysterau effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr sydd â llai o fynediad at gyngor, arweiniad a chymorth.
**Lliniaru:** Bydd trefniadau gweithredu graddol a mesurau i amddiffyn dysgwyr presennol yn llyfnhau'r broses bontio. Bydd parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith monitro yn helpu i nodi a mynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg.

**Effeithiau negyddol posibl** Gall cymhlethdod cynyddol greu rhwystrau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu rai o gefndiroedd difreintiedig.
**Lliniaru:** Bydd addasiadau rhesymol i ddysgwyr ag ADY yn cael eu cadw a'u cryfhau.

**Rhwystrau a sut y gellir eu lleihau**

Gall rhwystrau sy'n wynebu unigolion â nodweddion gwarchodedig gynnwys:

- mynediad at ddarpariaeth addas (gan gynnwys argaeledd daearyddol a chyfrwng Cymraeg);
- eglurder gofynion mynediad a llwybrau dilyniant;

- anghenion cymorth ychwanegol (e.e. anabledd, iaith, rhwystrau economaidd-gymdeithasol).

Gellir lleihau'r rhwystrau hyn trwy:

- Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith statudol clir a chydlynol drwy’r Fanyleb a chanllawiau ategol
- Medr yn datblygu, cynnal ac adolygu fframweithiau prentisiaeth yn unol â’r Fanyleb a chanllawiau cysylltiedig
- sicrhau bod hyblygrwydd yn cael ei gymhwyso mewn ffordd dryloyw a theg gan gyflogwyr a darparwyr
- ystyried anghenion dysgwyr, gan gynnwys anabledd, rhwystrau iaith a rhwystrau eraill a allai effeithio ar gyfranogiad a dilyniant.

**Her fewnol ac ystyriaeth ehangach**

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei rannu ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gyda chydweithwyr yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a meysydd polisi perthnasol, i brofi rhagdybiaethau a nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Bydd trafodaeth barhaus â rhanddeiliaid yn llywio'r asesiad ymhellach.

Defnydd o dystiolaeth

Mae tystiolaeth ffurfiol ar gyfer yr asesiad hwn wedi'i dynnu o ymgynghoriad SASW 2024. Ar ben hynny, mae'r asesiad wedi cael ei lywio gan drafodaethau parhaus gyda Medr a Cymwysterau Cymru, yn ogystal â dysgu o ddiwygiadau ehangach addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r dystiolaeth hon a gwybodaeth rhanddeiliaid wedi cael eu defnyddio i nodi effeithiau gwahaniaethol posibl a llywio'r gwaith o ddatblygu mesurau lliniaru.

**Mesur llwyddiant**

Bydd llwyddiant yn cael ei ddangos trwy:

- cyfranogiad parhaus neu well mewn prentisiaethau ar draws grwpiau gwarchodedig
- mynediad sefydlog at lwybrau prentisiaethau ar draws sectorau
- canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr, gan gynnwys cwblhau a dilyniant
- adborth gan randdeiliaid yn nodi eglurder a hygyrchedd.

**Y Fframwaith Canlyniadau**

Bydd fframwaith canlyniadau yn cael ei gefnogi drwy:

- Data prentisiaethau Medr (cyfranogiad, llwyddiant, dilyniant)
- monitro mynediad yn ôl nodwedd warchodedig lle mae data ar gael
- deallusrwydd ar lefel sector ynghylch ymarferoldeb y fframwaith
- gwerthusiad parhaus ar ôl gweithredu.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oed (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cymysg, yn gyffredinol gadarnhaol | Mae prentisiaethau yn cefnogi cyfranogiad pob oedran; Gall dysgwyr iau gael eu heffeithio yn fwy gan ansefydlogrwydd neu ddiffyg eglurder | Cynnal llwybrau clir; amddiffyn llwybrau mynediad; darparu arweiniad a chymorth dilyniant |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol y rhwystrau sy'n anablu pobl â | Posibilrwydd o fod yn gadarnhaol, gyda risgiau | Gall hyblygrwydd alluogi addasiadau rhesymol, ond gallai anghysondeb greu rhwystrau os caiff ei weithredu'n wael | Cadw trefniadau clir sy'n ymwneud â hygyrchedd, addasiadau rhesymol a chymorth i ddysgwyr. Pan na fo Sgiliau Hanfodol wedi eu cynnwys, rhaid i fframweithiau sicrhau bod anghenion dysgwyr wedi eu nodi, gan gynnwys drwy asesiad cychwynnol, a bod |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan eu hamhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch ar y fewnrwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwahanol fathau o amhariadau, neu sut y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i'w dileu) | | | cymorth priodol yn cael ei ddarparu pan fo'n ofynnol. |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Niwtral | Ni nodwyd unrhyw effaith polisi uniongyrchol; Mae effeithiau anuniongyrchol yn dibynnu ar fynediad ehangach a chynhwysiant y ddarpariaeth | Sicrhau arweiniad cynhwysol ac ymwybyddiaeth darparwyr |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Posibilrwydd o fod yn gadarnhaol | Gall cyflwyno hyblyg gefnogi cyfranogiad, ond gallai tarfu effeithio ar barhad | Annog modelau cyflenwi hyblyg; Diogelu llwybrau parhad |
| Hil (dylid cynnwys gwahanol grwpiau ethnig leiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Posibilrwydd o fod yn gadarnhaol, gyda risgiau | Gall mynediad hyblyg ehangu cyfranogiad; fodd bynnag, gall cymhlethdod neu ansefydlogrwydd effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau | Sicrhau eglurder llwybrau; cryfhau mecanweithiau canllawiau a chymorth |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Niwtral | Dim effeithiau uniongyrchol wedi'u nodi. | Cynnal mynediad teg drwy weithredu diwahaniaethol, gan gynnwys ystyried gofynion ffydd a chred lle bo'n berthnasol i ddarparu prentisiaethau, |
| Rhyw / Rhywedd | Niwtral yn gyffredinol | Dim effaith uniongyrchol ar bolisi; gall patrymau sectorol | Monitro tueddiadau cyfranogiad; hyrwyddo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn prentisiaethau ddylanwadu ar ganlyniadau | mynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Niwtral | Dim effeithiau uniongyrchol wedi'u nodi. | Cynnal ymagwedd gynhwysol wrth gyflawni |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Niwtral | Dim effeithiau uniongyrchol wedi'u nodi. | Diangen |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol, gyda risgiau trosiannol | Mae prentisiaethau yn llwybr allweddol i bobl ifanc; Mae eglurder a sefydlogrwydd yn hanfodol | Diogelu llwybrau mynediad clir; sicrhau arweiniad a chefnogaeth gref yn ystod y pontio |
| Aelwydydd incwm isel | Posibilrwydd o fod yn gadarnhaol, gyda risgiau | Mae prentisiaethau yn darparu llwybrau hyfforddi â thâl; gall cymhlethdod neu ofynion teithio gynyddu rhwystrau | Darparu gwybodaeth glir; cefnogi darpariaeth hygyrch; Lliniaru effeithiau pontio |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl, yn eich barn chi?

Ar y cyfan, nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar hawliau dynol wedi'u nodi.

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hawl i addysg (Protocol ECHR 1, Erthygl 2) | Cadarnhaol yn gyffredinol | Cefnogi mynediad parhaus at lwybrau addysg a hyfforddiant galwedigaethol | Cynnal sefydlogrwydd ac eglurder llwybrau mynediad |
| Hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu (Erthygl 14) | Cadarnhaol | Polisi yn berthnasol ar sail deg ac yn cefnogi mynediad cynhwysol | Monitro effeithiau a mynd i'r afael â gwahaniaethau |
| Hawl i weithio / amodau teg (ICESCR) | Cadarnhaol | Mae prentisiaethau yn cefnogi mynediad at gyflogaeth a datblygu sgiliau | Sicrhau ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Nid yw'r cynnig yn cyflwyno unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar hawliau gwarchodedig dinasyddion yr UE, AEE neu'r Swistir o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion.

**Asesiad yn ôl ardal:**

- **Hawliau preswylio:** Dim effaith. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar statws mewnfudo na phreswylio.
- **Cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau.** Dim effaith uniongyrchol. Mae'r cynnig yn ymwneud â gofynion fframwaith prentisiaethau Cymru yn hytrach na chydnabod cymwysterau tramor.
- **Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol:** Dim effaith. Nid yw'r cynnig yn newid cymhwystra ar gyfer budd-daliadau na gwasanaethau cyhoeddus.
- **Triniaeth gyfartal** Cadarnhaol / niwtral. Mae'r cynnig yn berthnasol ar sail nad yw'n gwahaniaethu ac mae'n cefnogi mynediad cyfartal i brentisiaethau.
- **Hawliau gweithwyr:** Niwtral. Nid yw'r cynnig yn diwygio hawliau cyflogaeth.

Bydd dinasyddion yr UE/AEE/y Swistir sy'n gymwys i gymryd rhan mewn prentisiaethau yn parhau i gael yr un mynediad a'r un hawliau â dinasyddion y DU.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi, ac nid ystyrir bod cyngor cyfreithiol yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

## C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. Rhif cyfeirnod yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg (wedi'i gwblhau gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru:

2. A oes cysylltiad clir rhwng y cynnig a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?

   Mae'r cynnig yn cydnabod mai nid mater o ymateb i'r galw presennol gan ddysgwyr yn unig yw cefnogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond ei fod hefyd yn fater o annog cyfranogiad a mynediad at gyfleoedd dysgu trydyddol cyfrwng Cymraeg yn unol ag amcanion statudol y Gymraeg. Mae'n dangos cysylltiad clir ac uniongyrchol â **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg** a'r Rhaglen Waith gysylltiedig (2021–2026), ar draws y tair thema strategol:

   - Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg: drwy gefnogi mynediad at brentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a chynnal llwybrau dilyniant hyfyw i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar draws addysg ôl-16.
   - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg: drwy lunio gofynion prentisiaeth a all hyrwyddo a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn hyfforddiant ac yn y gweithle.
   - Creu amodau ffafriol: drwy gryfhau gwytnwch y system brentisiaethau, gan gynnwys sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael, sy'n sail i ddatblygu sgiliau mewn cymunedau a sectorau Cymraeg eu hiaith.

Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r Rhaglen Waith sy'n ymwneud â'r materion canlynol:

- ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16
- cynyddu'r amrywiaeth o lwybrau galwedigaethol sydd ar gael yn y Gymraeg
- sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau yn Gymraeg.

Drwy ymgorffori ystyriaeth o'r Gymraeg o fewn gofynion y fframwaith prentisiaethau, mae'r cynnig yn cefnogi system fwy cynaliadwy sy'n barotach am y dyfodol ac sy'n cyfrannu at y nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y tymor hir.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, gan egluro sut y byddwch yn mynd i’r afael â’r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg. Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau negyddol)? Dylech nodi eich ymatebion i’r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynnig gael effaith gymedrol, gyda'r potensial ar gyfer canlyniadau cadarnhaol os caiff ystyriaethau Cymraeg eu hymgorffori'n effeithiol, ochr yn ochr â risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â sicrhau bod cymwysterau ar gael a thrawsnewid systemau.

**Effaith ar siaradwyr Cymraeg o bob oed**

Effeithiau cadarnhaol

- Gall system brentisiaethau fwy hyblyg a gwydn helpu i gynnal mynediad at lwybrau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc ac oedolion.
- Gall mwy o alinio ag anghenion y farchnad lafur gefnogi parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn enwedig mewn sectorau lle mae'r Gymraeg yn sgil allweddol.
- Gall symleiddio wella eglurder llwybrau i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n dechrau neu'n symud ymlaen mewn prentisiaethau.

Risgiau andwyol

- Gall llai o argaeledd cymwysterau ategol yn y Gymraeg gyfyngu ar fynediad i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg.
- Gall mwy o hyblygrwydd, os nad yw'n cael ei ddiffinio'n glir, arwain at anghysondeb yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Lliniaru

- Mae’r Fanyleb yn cynnwys gofyniad i Medr roi sylw i gyfleoedd i gynyddu mynediad at ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg wrth ddatblygu, cymeradwyo, adolygu neu ddiwygio fframweithiau prentisiaethau.
- Cynnal llwybrau a chanllawiau clir i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg.
- Parhau i drafod â swyddogion Cymraeg 2050, Medr a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gefnogi aliniad ag amcanion ehangach y Gymraeg.
- Gellir monitro canlyniadau cyfranogiad, cyflawniad a chynnydd trwy drefniadau gwybodaeth perfformiad a rheoli presennol Medr pan fo data ar gael.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg[2] (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

**Cymunedau Cymraeg eu hiaith**

Effeithiau cadarnhaol

- Mae prentisiaethau yn cefnogi cyflogaeth a chadw sgiliau yn lleol, gan gyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Gall fframweithiau hyblyg helpu i gynnal darpariaeth mewn sectorau sydd â niferoedd isel.

Risgiau andwyol

- Gallai colli darpariaeth cyfrwng Cymraeg lleol neu sector-benodol danseilio cynaliadwyedd cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.

Lliniaru

- Cydweithio â phartneriaid i gynnal darpariaeth hygyrch yn ddaearyddol.
- Ystyried cyfleoedd i gefnogi sectorau ac ardaloedd daearyddol lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn strategol bwysig, wedi'u llywio gan ddata ar y Gymraeg, tystiolaeth o'r farchnad lafur ac thrafod â rhanddeiliaid
- Ystyried effeithiau'r Gymraeg mewn gwaith prawfesur gwledig a chynlluniau gweithredu.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

Effeithiau cadarnhaol

- Cefnogi parhad rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a llwybrau galwedigaethol ôl-16.
- Potensial i gryfhau cyfleoedd dysgu gydol oes yn y Gymraeg, gan gynnwys oedolion sy'n dysgu.

Risgiau andwyol

[2] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac yn gymunedau rhithiol sy’n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol.

- Gall diwygio cymwysterau a newidiadau i'r farchnad leihau ystod y deunyddiau a'r cymwysterau dysgu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.
- Heb gynllunio effeithiol ar draws y system drydyddol ehangach, mae risg o effeithiau anfwriadol ar ddysgwyr sy'n dewis llwybrau ôl-16 cyfrwng Cymraeg amgen.

Lliniaru

- Cefnogi'r gwaith o sicrhau bod cymwysterau dwyieithog a deunyddiau ategol ar gael yn barhaus lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol.
- Parhau i gyd-fynd â pholisi a chynllunio cyfrwng Cymraeg ôl-16 ehangach drwy ymgysylltu parhaus â swyddogion Cymraeg 2050 a dull strategol Medr o gynyddu'r galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad ynddi
- Trafod â Medr a rhanddeiliaid perthnasol y Gymraeg, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol lle bo hynny'n briodol, i gefnogi cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg.

Sut bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau[3] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

Effeithiau cadarnhaol

- Cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws y system brentisiaethau, gan gyfrannu at wasanaethau cyhoeddus ehangach (e.e. cyflenwad gweithlu ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol).

Risgiau andwyol

- Gall hyblygrwydd anghyson arwain at fynediad anghyfartal at wasanaethau yn Gymraeg.

Lliniaru

- Sicrhau cydraddoldeb rhwng gwasanaethau Cymraeg a Saesneg o fewn canllawiau ac wrth weithredu.
- Ymgorffori disgwyliadau o ran y  Gymraeg mewn gofynion a chontractau darparwyr.

[3] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg.

Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg?

Bydd yr holl wybodaeth, canllawiau a dogfennau ategol (gan gynnwys rhestrau cymwysterau) yn gwbl ddwyieithog ac yn yr un mor hygyrch.

- Bydd gwaith cyfathrebu yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu adnabod a chael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg yn hawdd, gan gynnwys trwy sianeli digidol a thrafod â darparwyr.
- Bydd trafod â rhanddeiliaid yn cefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a manteisio ar gyfleoedd cyfrwng Cymraeg.

Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Byddai'r dystiolaeth bellach a amlinellir isod yn helpu i gynnal asesiad gwell

- Data manylach ar gyfranogiad a chyfradd cwblhau prentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- Capasiti darparwyr i gynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Tystiolaeth sector-benodol ar y galw o ran yr iaith Gymraeg ac anghenion sgiliau.

Bydd hyn yn cael ei gasglu trwy ymgynghori ac thrafodaethau parhaus.

- Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Bydd llwyddiant yn cael ei ddangos fel a ganlyn:

- Cyfranogiad parhaus neu gynyddol mewn prentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- Cymwysterau allweddol ar gael yn y Gymraeg trwy'r amser
- Deilliannau cadarnhaol o ran cynnydd a chwblhau i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg
- Adborth gan randdeiliaid sy'n nodi darpariaeth glir, hygyrch a chyson
- Tystiolaeth o fwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau prentisiaethau a gweithleoedd.

Gall monitro parhaus dynnu ar ddata Medr, adborth rhanddeiliaid a gwybodaeth gan Cymwysterau Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â thimau polisi perthnasol, gan gynnwys swyddogion Cymraeg 2050, i ystyried goblygiadau i'r Gymraeg sy'n deillio o'r gwaith o weithredu hyn.